**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro**
**Llywodraeth Cymru, QED Trefforest, 11 Rhagfyr 2019**
**Crynodeb o'r cyfarfod**

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 2. Diweddariad ynghylch y Bil

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch y Bil. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r cynllun gwaith drafft lefel uchel.

## 3. Diweddariad ynghylch y grwpiau gorchwyl a gorffen eraill

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch gwaith y grwpiau gorffen a gorchwyl eraill.

## 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 19 Medi 2019 yn gywir. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gohebiaeth â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ynghylch y problemau y daethpwyd ar eu traws wrth geisio amcangyfrif niferoedd a chostau presennol adroddiadau i wasanaethau cymdeithasol am rieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol, yn cael ei rhannu â'r grŵp pan fyddai wedi'i chyhoeddi.

## 5. Trafod opsiynau ar gyfer casglu data'r heddlu

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru opsiynau ar gyfer casglu data, a gafodd eu hystyried gan yr heddlu. Cafodd yr opsiynau hynny eu datblygu'n dilyn trafodaethau yng nghyfarfod blaenorol y grŵp, ac yn ystod gweithdy gyda dadansoddwyr data o'r pedwar heddlu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision ac anfanteision cymharol yr opsiynau, ac yn dilyn hynny bu'n bosibl lleihau nifer yr opsiynau er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i'r rhai mwyaf manteisiol. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn drafftio papur opsiynau i'w ystyried gan y Grŵp Gweithredu Strategol, a fyddai'n llywio'r camau nesaf. Byddai'r papur yn cael ei rannu â'r grŵp ac uwch-gynrychiolwyr yr heddluoedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredu Strategol.

## 6. Trafodaeth ynghylch y metrigau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol

Cafwyd trafodaeth ynghylch y metrigau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cofnodi'r data am atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol ynghylch achosion o gosbi plant yn gorfforol. Cytunwyd y byddent yn cael eu dosbarthu i aelodau'r grŵp.

## 7. Camau nesaf/Cynllun ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Diolchodd Llywodraeth Cymru i aelodau'r grŵp am eu hamser ac am rannu eu harbenigedd. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhoi diweddariad i'r Grŵp Gweithredu Strategol am y gwaith o gasglu data gwasanaethau cymdeithasol.

Byddai cyfarfod nesaf y grŵp yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2020.